Gwasanaeth Dysgu Môn
Anglesey Learning Service

## Ysgol Henblas

# Polisi Gwisg Ysgol ac Ymddangosiad

## [Crëwyd 2023-24]

| | |
|---|---|
| Dyddiad wedi ei fabwysiadu gan y Corff Llywodraethu *(bydd hefyd angen cofnodi hyn yng nghofnodion y cyfarfod lle cafodd ei dderbyn a'i fabwysiadu)* | |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr (llofnod) | |
| Pennaeth (llofnod) | |
| Dyddiad adolygu *(3 mlynedd o fabwysiadu, os nad yw wedi ei ddiweddaru gan yr ALl)* | |

# Polisi Gwisg Ysgol ac Ymddangosiad

Yn Ysgol Henblas, credwn yn gryf fod gwisg ysgol yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi ymddygiad a disgyblaeth gadarnhaol, datblygu ethos yr ysgol a chefnogi dysgu ac addysgu. Mae hefyd yn helpu i greu delwedd gadarnhaol o'r ysgol yn y gymuned ac wrth adnabod myfyrwyr.

Mae'r Polisi Gwisg Ysgol yn rhan annatod o ymrwymiad yr ysgol i gydraddoldeb a chynhwysiant. Mae'r Corff Llywodraethu'n credu bod y Polisi Gwisg Ysgol yn caniatáu i bob disgybl sefydlu hunaniaeth a rennir a dathlu'r hyn sydd ganddynt yn gyffredin, tra'n parchu amrywiaeth.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni / gofalwyr er mwyn datrys unrhyw faterion a allai godi.

Arddangosir y polisi hwn ar ein gwefan ac mae ar gael i rieni'n uniongyrchol o'r ysgol. Rhennir y gofynion gwisg ysgol hefyd ym mhrosbectws yr ysgol sy'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn. Yr ysgol i addasu fel y bo'n briodol.

## 1. Cefndir

**1.1** Mae'r polisi hwn wedi'i adolygu a'i ddiwygio drwy roi ystyriaeth i [Polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion: canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu (2019) Llywodraeth Cymru.]

**1.2** Mae Polisi Gwisg Ysgol Ysgol Henblas yn seiliedig ar y syniad y gall gwisg ysgol:

- Hyrwyddo ymdeimlad o hunaniaeth a chydlyniant o fewn yr ysgol;
- Annog ymddygiad cadarnhaol a hunanddisgyblaeth sy'n cefnogi dysgu ac addysgu;
- Sicrhau bod myfyrwyr yn gwisgo'n briodol ar gyfer gweithgaredd dysgu;
- Tynnu pwysau gan gyfoedion i wisgo mewn ffasiynau penodol;
- Galluogi myfyrwyr o bob cefndir i rannu hunaniaeth gyffredin sy'n cwmpasu eu gofynion penodol;
- Helpu i leihau anghydraddoldebau rhwng myfyrwyr a helpu i leihau rhai sbardunau ar gyfer bwlio;
- Cefnogi'r polisïau diogelu a phresenoldeb drwy helpu i nodi triwantiaid;
- Helpu i adnabod dieithriaid ar safle'r ysgol;
- Cefnogi a hyrwyddo ethos yr ysgol.

## 2. Gwisg Ysgol ac Ymddangosiad

Gweler y llawlyfr ysgol am esboniad manwl o wisg yr ysgol (ar ein gwefan). Caniateir i ddisgyblion wisgo eu citiau Addysg Gorfforol neu siorts ysgol mewn tywydd poeth iawn neu ganiatáu i drowsusau gael eu gwisgo yn lle sgertiau mewn tywydd oer iawn.

*Eithriadau
Ar adegau, nid yw'n bosibl i ddisgybl wisgo'r wisg gywir, e.e., cyflwr meddygol dros dro neu barhaol neu nam. Mewn achos o'r fath dylai rhieni gysylltu â'r ysgol drwy lythyr neu dros y ffôn yn esbonio'r broblem. Disgresiwn y Pennaeth yn unig yw eithriadau (mae hyn yn cynnwys trefniadau arbennig yn ystod tywydd poeth). Bydd unrhyw eithriadau yn ystod tywydd poeth yn cael eu cyfathrebu i rieni a disgyblion drwy ebost.

Nid yw'n ofynnol i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol â logo'r ysgol a nodweddion unigryw eraill arnynt. Nid yw gwisgo brand yn orfodol. Rydym yn cefnogi amrywiaeth eang o gyflenwyr gwisg ysgol.

## 3. Cit Addysg Gorfforol

Mae'r Corff Llywodraethol yn cefnogi dewis personol o wisg addysg gorfforol sy'n ymarferol, yn gyfforddus, yn briodol ar gyfer y weithgaredd dan sylw ac yn fforddiadwy.

**4. Gemwaith, Gwallt a Cholur**

Yn Ysgol Henblas mae gennym reolau sydd yn annog diogelwch ar emwaith yn ystod gweithgareddau addysg gorfforol.

**5. Cynwysoldeb a Chydraddoldeb**

**5.1** Mae'r Corff Llywodraethu yn sensitif i'r effaith bosibl y gallai gwisg ysgol ei chael ar hawl pawb a'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth ddatblygu neu adolygu eu polisïau gwisg ysgol ac edrychiad, er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred ac anabledd.

**5.2** Rydym yn cydnabod bod gennym rwymedigaeth o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 i ddiogelu hawliau unigolion i arddangos eu crefydd neu eu credoau. Mae rhai crefyddau yn gofyn i'w dilynwyr wisgo arteffactau crefyddol neu eu bod yn gwisgo mewn ffordd benodol. Mae'n bosibl i nifer o ofynion crefyddol gael eu bodloni drwy'r Polisi Gwisg Ysgol ac Ymddangosiad. Rhoddir ystyriaeth ofalus gan y Pennaeth i unrhyw gais a wneir i amrywio'r polisi i ddiwallu anghenion disgyblion unigol er mwyn caniatáu ar gyfer eu crefydd neu eu cred.

**5.3** Nid yw'r Polisi Gwisg Ysgol ac Ymddangosiad yn rhoi disgyblion sydd ag anabledd dan anfantais o'u cymharu â disgyblion nad oes ganddynt anabledd. Gwneir addasiadau rhesymol i'r polisi i ganiatáu ar gyfer gofynion disgyblion ag anableddau.

**5.4** Nid oes gwahaniaethu ar sail rhyw.

**6. Cynaliadwyedd a Phryderon Amgylcheddol**

Yn Ysgol Henblas rydym yn ymwybodol iawn o'n heffaith ar yr amgylchedd a'r effaith o wastraff dillad. Felly mae gennym gynllun ailgylchu ar gyfer gwisgoedd ysgol. Gall rhieni gysylltu gyda'r pennaeth am gymorth perthnasol.

**7. Ymrwymiad**

**7.1** Rydym yn cydnabod y gall gwisg ysgol ac eitemau eraill y bydd yn ofynnol eu prynu yn unol â'r Polisi Gwisg Ysgol fod yn faich ariannol yn enwedig i'r rheini o deuluoedd incwm isel a theuluoedd mawr. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod y wisg ysgol yn fforddiadwy ac yn darparu'r gwerth gorau.

**7.2** Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig cymorth ariannol drwy ei Grant Hanfodion Ysgol prawf modd (GDD Mynediad yn flaenorol).

**7.3** Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Grant Hanfodion Ysgol a chymhwysedd ar gael ar dudalen we'r Grant Hanfodion Ysgol: [Grant Hanfodion Ysgol | LLYW.CYMRU](Grant Hanfodion Ysgol | LLYW.CYMRU).

## 8. Gweithrediad

**8.1** Disgwylir i holl staff yr ysgol gynnal polisi'r ysgol ar wisg ysgol drwy annog gwisg addas.

**8.2** Bydd y Pennaeth yn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu drwy fonitro cyson.

**8.3** Rôl rhieni:
- Cefnogi'r Polisi Gwisg Ysgol;
- Anfon eu plant i'r ysgol wedi eu gwisgo'n gywir ac yn barod ar gyfer eu gwaith ysgol dyddiol;
- Sicrhau fod gan eu plentyn y wisg gywir, a'i bod yn lân ac mewn cyflwr da.
- Cysylltu â'r ysgol os oes rhesymau pam nad yw eu plentyn yn gallu gwisgo'r wisg ysgol.

**8.4** Rôl llywodraethwyr:
- Cefnogi'r Pennaeth i weithredu'r Polisi Gwisg Ysgol;
- Ystyried yr holl sylwadau gan rieni ynglŷn â'r Polisi Gwisg Ysgol a chysylltu â'r Pennaeth i sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu'n deg a chyda sensitifrwydd;
- Sicrhau bod y wisg ysgol yn bodloni'r holl reoliadau sy'n ymwneud â chyfle cyfartal;
- Sicrhau bod y Polisi Gwisg Ysgol yn helpu plant i wisgo'n synhwyrol, mewn dillad sy'n gwisgo'n dda, sy'n ddiogel ac sy'n ymarferol.
- Sicrhau nad yw absenoldeb yn codi oherwydd nad yw teuluoedd yn gallu darparu gwisg i'w plant. Os bydd y sefyllfa honno'n codi, dylai'r Awdurdod Lleol neu'r ysgol roi gwybodaeth a chymorth priodol arall i deuluoedd.

Bydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio â pholisi gwisg ysgol ac ymddangosiad yn cael ei orfodi gan y Pennaeth fel rhan o'i gyfrifoldeb cyffredinol dros redeg yr ysgol o ddydd i ddydd ac am gynnal disgyblaeth. Rhaid i'r Pennaeth ystyried popeth cyn cyflwyno sancsiwn.

Gall penaethiaid ofyn i ddisgyblion fynd adref i newid eu dillad os yw'n briodol gwneud hynny. Ni ddylai hyn fod am fwy o amser na'r angen i newid dillad a byddai ond yn briodol lle gellir gwneud y newid yn gyflym ac yn hawdd. Wrth anfon disgybl adref, dylai penaethiaid neu uwch staff gadw mewn cof oedran a bregusrwydd y plentyn a dylent gysylltu â'r rhieni neu'r gofalwyr. Byddai disgwyl i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol yn syth ar ôl i'w ddillad gael eu newid. Gallai methu â gwneud hynny fod yn absenoldeb anawdurdodedig.

## 9. Newidiadau i Wisg Ysgol

**9.1** Bydd unrhyw newid sylweddol arfaethedig i'r wisg ysgol ac ymddangosiad yn destun ymgynghoriad â rhieni, disgyblion a, lle bo'n berthnasol, cymunedau lleol neu ffydd fel yr amlinellir yn Polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion: canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu (2019) gan Lywodraeth Cymru.

**9.2** Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am y penderfyniad.

## 10. Cwynion

**10.1** Dylid codi cwynion neu bryderon am bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad, gan gynnwys argaeledd y wisg ysgol neu gost prynu'r wisg gan gyflenwr penodol, gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol a dylid delio â hwy yn unol â gweithdrefn gwynion y Corff Llywodraethu. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob corff llywodraethu gael gweithdrefn ar waith ar gyfer delio â chwynion gan rieni, disgyblion, aelodau staff, llywodraethwyr, aelodau

o'r gymuned leol ac eraill mewn perthynas â materion y mae gan y corff llywodraethu gyfrifoldeb statudol amdanynt. Gallwch dderbyn copi o'r polisi cwynion drwy ofyn yn yr ysgol.

**11. Monitro ac Adolygu**

11.1 Caiff y polisi hwn ei adolygu bob tair blynedd neu lle bo'n briodol mewn perthynas â datblygiadau cyfredol ar lefel genedlaethol.